

## Amynedd

**Darlleniad: Luc 8: 4-8, 8: 11-15, 19: 9-19**

---

---

Sut medri di, Dduw, ofyn inni fod yn amyneddgar?

Mae cymaint i'w wneud. Mae amser yn hedfan heibio inni. Aros mae'r dasg o ddwyn dy Eglwys yng Nghymru i mewn i'r ugeinfed ganrif cyn iddi orffen!

Gadewch inni adrodd gyda'n gilydd emyn 782 yn Atodiad y Methodistiaid. (*Cydadrodd yr emyn*)

Fe'th glywn di'n siarad â ni heddiw:

'Y mae angen dyfalbarhad arnoch i gyflawni ewyllys Duw a meddiannu'r hyn a addawyd.'

Rwyt ti'n ein dysgu ni bod amynedd, neu ddyfalbarhad, yn un o'n harfau mawr ni yn dy frwydr yn ein dyddiau. Oherwydd, yng ngeiriau'r ysgrythur:

'Ymhen ennyd, ennyd bach, fe ddaw yr hwn sydd i ddod, a heb oedi; ond fe gaiff fy ngŵr cyfiawn i fyw trwy ffydd, ac os cilia'n ôl, ni bydd fy enaid yn ymhyfrydu ynddo. Eithr nid pobl y cilio'n ôl i ddistryw ydym ni, ond pobl y ffydd sy'n mynd i feddiannu bywyd.'

Diolch i ti am ddweud wrthym bod amynedd yn arwain at feddiannu'n bywyd. Mae hyn yn ein harafu o'n gwylltineb ac yn rhoi cyfle inni atgyfnerthu ar dy obaith. Tybed a ddown trwy hynny'n well gweithwyr trosot - gan weithio mwy yn ôl d'amserlen dithau? Fedrwn ni ddygymod â'th amserlen di?

'Gadewch i ddyfalbarhad gyflawni ei waith, er mwyn ichi fod yn gyfan a chyflawn, heb fod yn ddiffygiol mewn dim.'

Mae'n anodd wedyn inni dderbyn llwyddiant dy Eglwys mewn gwledydd eraill. Hithau'n llwyddo drwy wneud pethau sydd o fewn ein cyrraedd ninnau hefyd! Maddau inni na wnaethom ni'r pethau hynny eto yng Nghymru - dim ond meddwl a siarad am eu gwneud! Dy Eglwys yn y gwledydd eraill sydd mewn gogoniant yn ei llwyddiant - a rhuthrwn ninnau i genfigennu wrthynt hwy.

Atgoffa ni, ein Tad, bod y canghennau hynny o'th Eglwys yn talu'n ddrud am eu llwyddiant yn yr efengyl. Talu maent trwy dlodi eu pobl, merthyrdod eu Cristnogion, chwys a llafur eu datblygu a phoen eu haberth a'u sefyllfa. Faint bynnag fo'n cenfigen, fedrwn ni ddim mynd i'w lle nhw er mwyn cael eu llwyddiant nhw.

Rhaid i ni aros wrthyt yng Nghymru heddiw. Rhaid i ni ddisgwyl wrthyt yn ein cymunedau a'n capeli. Rhaid i ni fyw ynot trwy ein hymdrechion ein hunain a thrwy gynhaeaf y tir da yma lle rydym yn byw.

‘Y mae arnom angen dyfalbarhad i gyflawni d’ewylllys di a meddiannu’r hyn a addawyd.’

Plygwn yn ostyngedig o'th flaen gyda'n gilydd.

‘Yr hyn nad ydym yn ei weld yw gwrthrych gobaith, ac felly yr ydym yn dal i aros amdano mewn amynedd.’

Derbyn ni i'th Eglwys ac i'th gwmni ar hyd y llwybrau byw. Gweddiwn am nerth i weithio drosot - ac am fwy o nerth i aros yn dy waith yn wyneb pob siom ac anhawster, yn Iesu Grist. Amen.

*Roger Ellis Humphreys*